



Tribiwnlys y Gymraeg Welsh Language Tribunal

Hysbysiad Cais

(I'w chwblhau gan, neu ar ran, y ceisydd)

Mae cyfeiriadau yn y ffurflen at “y Tribiwnlys” yn gyfeiriadau at Dribiwnlys y Gymraeg ac mae cyfeiriadau at “y Comisiynydd” yn gyfeiriadau at Gomisiynydd y Gymraeg. Mae cyfeiriadau at “y Mesur” yn gyfeiriadau at Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Ysgrifennwch yn eglur MEWN DU gan dicio bocsys lle'n briodol os gwelwch yn dda.

Nodyn i'r rhai sydd am wneud cais

Cynghorir y gall unrhyw wybodaeth a ddarperir i'r Tribiwnlys gael ei gofnodi o fewn y ddogfen penderfyniad. Mae'r holl benderfyniadau a wneir gan y Tribiwnlys yn agored i'r cyhoedd.

1. Dewis iaith

A ydych chi am dderbyn (neu, os ydych wedi penodi cynrychiolydd mewn perthynas â'r cais, am i'ch cynrychiolydd dderbyn) cyfathrebiadau oddi wrth y Tribiwnlys yn (a) Gymraeg neu (b) Saesneg?

a) Gymraeg

b) Saesneg

2. Gwybodaeth amdanoch chiwi a'ch cynrychoilydd (os oes un)

Eich enw

(h.y. enw'r ceisydd – a all fod yn enw corff neu unigolyn):

Eich cyfeiriad:

(gan gynnwys cod post)

Cyfeiriad ebost (os oes un ar gael):

Rhif ffôn

(os oes un ar gael):

Rhif ffacs

(os oes un ar gael):

Ydych chi wedi penodi cynrychiolydd mewn perthynas â'r cais? (Os ydych, rhowch yr wybodaeth y gofynnir amdani isod)

Enw'r cynrychiolydd (ac, yn achos cwmni, enw'r unigolyn sy'n delio gyda'r mater):

Cyfeiriad y cynrychiolydd:
(gan gynnwys cod post)

Cyfeiriad ebost y cynrychiolydd
(os oes un ar gael):

Rhif ffôn y cynrychiolydd
(os oes un ar gael):

Rhif ffacs y cynrychiolydd
(os oes un ar gael):

At ba gyfeiriad/cyfeiriad ebost y dylai'r Tribiwnlys anfon hysbysiadau a dogfennau eraill ar eich cyfer?
(Fel arfer, bydd y Tribiwnlys yn cyfathrebu trwy ebost os bydd hynny'n bosibl.)

3. Y PENDERFYNIAD YR YDYCH AM APELIO YN EI ERBYN (NEU HERIO)

Ticiwch y blwch sy'n disgrifio natur eich cais:

3a	Dyfarniad gan y Comisiynydd nad yw'r gofyniad i gydymffurfio â safon (neu gydymffurfio â safon mewn modd penodol) yn afresymol neu'n anghymesur; (<i>adran 58 o'r Mesur</i>)	<input type="checkbox"/>
3b	Dyfarniad gan y Comisiynydd fod methiant wedi bod i gydymffurfio â gofyniad safon; (<i>adran 95(2) o'r Mesur</i>)	<input type="checkbox"/>
3c	Camau gorfodi y mae'r Comisiynydd wedi penderfynu eu cymryd; (<i>adran 95(4) o'r Mesur</i>)	<input type="checkbox"/>
3d	Dyfarniad gan y Comisiynydd na fu methiant i gydymffurfio â safon; (<i>adran 99(2) o'r Mesur</i>)	<input type="checkbox"/>
3e	Penderfyniad gan y Comisiynydd i beidio â chynnal ymchwiliad i gŵyn (neu i derfynu ymchwiliad); (<i>adran 103 o'r Mesur</i>)	<input type="checkbox"/>

Ar ba ddyddiad y cawsoch (hynny yw, y ceisydd) gadarnhad ysgrifenedig o'r penderfyniad gan y Comisiynydd y mae'r cais hwn yn ymwneud ag ef?

Beth yw eich rhesymau dros wneud y cais? Gallwch rhoi'r rhesymau hyn mewn dogfen ar wahân os oes angen.

(Os byddwch am wneud cais o dan adran 103 o'r Mesur, bydd y Tribiwnlys yn ystyried, yn gyntaf, a ddylid rhoi caniatâd i chwi wneud hynny. Gall yr ystyriaeth honno gael ei seilio ar y rhesymau yr ydych wedi'u rhoi yma). (Gallwch rhoi'r rhesymau hyn mewn dogfen ar wahân os oes angen.)

Os bydd eich cais yn llwyddo, pa ganlyniad ydych chi (sef y ceisydd) am gael?

(Fel arfer, yr unig bŵer bydd gan y Tribiwnlys bydd cadarnhau neu ddileu penderfyniad y Comisiynydd. Ond yn achos apêl o dan adran 95(4) o'r Mesur, bydd gan y Tribiwnlys bŵer i amrywio'r camau gorfodi. Os ydych am ddadlau dros gamau gorfodi gwahanol i'r rhai y penderfynodd y Comisiynydd arnynt, dylech nodi'r camau gwahanol hynny yma.)

Fel arfer, rhaid i'ch cais ddod i law'r Tribiwnlys o fewn y cyfnod o 28 diwrnod sy'n cychwyn ar y diwrnod y rhoddodd y Comisiynydd hysbysiad ysgrifenedig o'r penderfyniad sy'n cael ei apelio neu'i herio. Ond mae gan y Tribiwnlys bŵer i ymestyn y cyfnod hwnnw, yn unol â Rheol 14, os bydd rheswm da. A ydych chi (y ceisydd) yn gofyn i'r Tribiwnlys wneud hynny?

a) Ydw

b) Nac Ydw

Os ydych yn gofyn i'r Tribiwnlys ymestyn y cyfnod o 28 diwrnod, rhowch y rhesymau sydd, yn eich barn chwi, yn cyfiawnhau i'r Tribiwnlys (yn unol â Rheol 14) wneud hynny. (Gallwch rhoi'r rhesymau hyn mewn dogfen ar wahân os oes angen.)

A fedrwyh gadarnhau bod copi o hysbysiad ysgrifenedig y Comisiynydd o'r penderfyniad y mae'r cais hwn yn ymwneud ag ef wedi'i atodi i'r hysbysiad hwn? (Os na fedrwyh, ni fydd y Tribiwnlys yn medru ystyried y cais.)

Atodwyd:

4. LLOFNODION

Llofnodwyd:

Enw (PRIFLYTHRENNAU):

Dyddiedig:

Rhaid i'r ddogfen hon gael ei llofnodi uchod gan y ceisydd neu gan gynrychiolydd y ceisydd, os oes un. Os bydd yn cael ei anfon at y Tribiwnlys trwy ddull electronig, bydd ffurf argraffedig o lofnod yn dderbyniol.

Anfonwch y ffurflen gais wedi ei chwblhau a'r dogfennau penodedig:

Trwy ebost - tyg@llyw.cymru

Neu mewn copi caled i:

Tribiwnlys y Gymraeg
Llawr Cyntaf, Adain y Gorllewin
Tŷ Southgate
Stryd Wood
Caerdydd
CF10 1EW

Ffôn – 03000 256702
Ffacs - 03000 256146

Cysylltwch â'r Tribiwnlys os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch llenwi'r ffurflen hon neu'r gweithdrefnau a ddefnyddir gan y Tribiwnlys.